# Technoleg Cerbydol

(Tystysgrif Estynedig BTEC Lefel 2 mewn Technoleg Cerbydol)

2017-19

## Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Mae'r Dystysgrif Estynedig mewn Technoleg Cerbydol wedi ei dylunio ar gyfer dysgwyr sydd â diddordeb mewn gweithio gyda cherbydau ar lefel estynedig ac sydd yn dymuno datblygu sgiliau academaidd arbenigol a dealltwriaeth fydd yn arwain tuag at un ai swydd neu gymhwyster neu hyfforddiant pellach.

Gallai'r meysydd ffocws gynnwys: systemau injan cerbyd, gwyddoniaeth cerbyd a mathemateg gymhwysol neu gynllun cerbyd a gweithrediad systemau cerbyd.

## Sut y byddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs yn cael ei ddysgu ar safle Coleg Menai yn Llangefni, am 3 awr ar fore dydd Iau ym Mlwyddyn 10 ac am 3 awr ar fore dydd Gwener ym Mlwyddyn 11 ac mae cludiant ar gael o ac yn ôl i'ch ysgol. Mae'r cwrs yn gyfuniad o dasgau ystafell ddosbarth a thasgau ymarferol a byddwch yn cael cyfle i ymarfer eich sgiliau cyn y byddwch yn cael eich asesu fel eich bod yn gwybod ac yn deall yr hyn rydych yn gorfod ei wneud. Mae'r cwrs yn cyfateb i ddwy TGAU (A* - C).

## Beth fydd ei angen arnaf?

Mae disgwyl i fyfyrwyr wisgo dillad diogelwch personol (bŵts diogelwch ac oferôl). Byddant ar gael yn y coleg.

## Sut byddaf yn cael fy asesu?

Bydd rhaid i chi gynhyrchu llyfr log a phortffolio fydd yn cael eu hasesu'n bennaf gan diwtor y cwrs.

## Beth sydd yn digwydd ar ôl y cwrs?

Ar ôl blwyddyn 11, bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu defnyddio eu cymhwyster fel cam ymlaen i gael mynediad i swydd yn niwydiant cynnal a thrwsio cerbydau.

## Syniadau am swyddi!

- Cynnal a chadw yn y diwydiant cerbydau
- Peirianneg fodurol
- Peiriannydd cerbydau

## Eisiau gwybod mwy?

I ddarganfod mwy am y cwrs, ewch i'r wefan:

http://www.edexcel.com/quals/firsts10/vehicle/Pages/default.aspx

neu cysylltwch â: www.gyrfacymru.com